# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 19 Rhagfyr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(102)

**Datganiad gan y Llywydd: Galw'r cynulliad un ôr**

Nododd y Llywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 12.3, ar gais y Prif Weinidog, ei bod wedi cynnull y Cynulliad i ystyried y Rheoliadau Treth Gyngor drafft fel mater sydd o bwys cyhoeddus brys.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**
**1. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 13.31

**Cytunwyd o dan Reol Sefydlog 12.24 y byddai'r ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

**NDM5122 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**2. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru)**

**NDM5123 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15(i), bydd unrhyw bleidlais angenrheidiol yn cael ei chynnal ar ddiwedd y ddadl ar y cynnig.**

**PWYNT O DREFN**

Dechreuodd yr eitem am 14.23

Cododd Andrew R. T. Davies, Arweinydd yr Wrthblaid, Bwynt o Drefn yn gofyn am gyngor ynghylch a ellid gofyn Cwestiynau Brys yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

Cyfeiriodd y Llywydd at Reol Sefydlog 12.3 a wnaeth ei galluogi i gynnull y Cynulliad ar gyfer y cyfarfod heddiw ar gais y Prif Weinidog. Rhaid i'r cais fod mewn perthynas â mater penodol o bwys cyhoeddus brys, sef ystyried y Rheoliadau Treth Gyngor.

Dyfarnodd y Llywydd fod cynnull cyfarfod yn y ffordd hon yn eithriadol ac yn syrthio y tu allan i lawer o'r gweithdrefnau arferol ar gyfer pennu busnes yn y Cyfarfod Llawn ac mai'r unig beth y byddai'r Cynulliad yn canolbwyntio arno heddiw oedd y Rheoliadau.

Atgoffodd y Llywydd yr Aelodau y bydd unrhyw Gwestiynau Brys a gaiff eu cyflwyno yn ystod y toriad yn cael eu hystyried fel arfer cyn y Cyfarfod Llawn cyntaf a bod hefyd cyfle i'r Aelodau gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Llywodraeth yn ystod y toriad.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:24

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2013**